**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (94)**

## Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mercher, 20 Hydref 2004

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
Atebwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

**2.26pm**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**2.59pm**
**Dadl ar y Gyllideb Ddrafft**
*NDM2133 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 21.3, yn nodi’r gyllideb ddrafft ar gyfer blynyddoedd ariannol 2005-2006, 2006-07 a 2007-08 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 12 Hydref 2004 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn llinell 2, dileu 'yn nodi'r' a rhoi 'yn nodi â phryder y' yn ei le.

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am bolisi ariannu teg a fydd yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael ei ariannu'n ddigonol i allu diwallu anghenion pobl Cymru.

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod gan addewidion Llywodraeth Lafur y Cynulliad i roi brecwastau ysgol am ddim ac i beidio â mabwysiadu ffïoedd ychwanegol tan 2007 oblygiadau mawr i'r gyllideb hon, ac yn gresynu anallu Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddarparu'r ffigurau y mae'r addewidion hyn yn dibynnu arnynt.

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio methiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad i leihau amserau a rhestrau aros ac yn galw am newidiadau i'r gyllideb ddrafft i unioni'r methiannau hyn.

**Gwelliant 5**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio methiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddarparu adnoddau digonol i gynnal economi cefn gwlad.

**Gwelliant 6**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan lywodraeth leol ynghylch cyllido addysg ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i sefydlu grwp trawsbleidiol i archwilio i faterion yn ymwneud â chyllido ysgolion.

**Gwelliant 7**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod y gyllideb hon yn dangos effaith gwasgfa Barnett yn glir a bod fformiwla Barnett wedi dyddio ac angen ei diwygio.

**Gwelliant 8**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o’r holl wariant, bod hanner y llinellau cyllideb wedi’u gwastatáu rhwng 2004/5 a 2005/6 gan arwain at doriad mewn gwirionedd.

**Gwelliant 9**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu penderfyniad y llywodraeth i gyflwyno llinell wariant yn y gyllideb sy’n canolbwyntio ar Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid.

**Gwelliant 10**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, er bod natur fformiwla Barnett yn golygu nad yw gwasanaethau cyhoeddus Cymru’n cael eu hariannu’n ddigonol, bod dwy agwedd ar y gyllideb yn arbennig o brin: y Grant Cynnal Refeniw a’r Cyllid Cymorth i Fyfyrwyr ac yn credu, at hynny, y byddai mwy o fuddsoddi yn y llinellau cyllideb hyn o fudd i Gymru.

**Gwelliant 11**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r cynnydd yn y buddsoddiad yn y strategaeth wastraff ac yn nodi cyfraniad y credydau treth tirlenwi, ond yn galw am edrych eto ar yr effaith ariannol y mae gwella’r cymhellion ailgylchu a’r cymal codi yn y dreth dirlenwi yn ei gael ar awdurdodau lleol ac yn credu y byddai buddsoddi mwy eto mewn ailgylchu yn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol Cymru.

**Gwelliant 12**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod £120m o arian wrth gefn yn y gyllideb ddrafft, sy'n sylweddol uwch na lefel yr arian wrth gefn mewn cyllidebau drafft blaenorol, yn credu y bydd y llywodraeth yn dyrannu'r arian hwn yn ystod camau olaf ac atodol y gyllideb, ac felly'n gofyn i'r Gweinidog ddyrannu £30m o'r arian wrth gefn ar yr adeg hon yng nghylch y gyllideb i linellau blaenoriaeth megis y Grant Cynnal Refeniw a'r Cyllid Cymorth i Fyfyrwyr.

**Gwelliant 13**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i ailddyrannu'r arian a glustnodwyd ar gyfer brecwastau ysgol am ddim i linellau blaenoriaeth yn y gyllideb megis y Grant Cynnal Refeniw a'r Cyllid Cymorth i Fyfyrwyr.

**Gwelliant 14**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod dros £100m yn cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn ar gostau rhedeg y cwangos ac yn credu y byddai ailgyfeirio 10% o gostau rhedeg y cwangos i linellau blaenoriaeth yn y gyllideb megis y Grant Cynnal Refeniw a'r Cyllid Cymorth i Fyfyrwyr yn ddisgyblaeth werthfawr iawn wrth i'r cwangos baratoi i ddod yn rhan o weinyddiaeth y Cynulliad.

**Gwelliant 15**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i rewi'r arian ar gyfer buddsoddi mewn cefnffyrdd ar lefelau 2004/05 a throsglwyddo'r arian hwnnw i linellau blaenoriaeth yn y gyllideb megis y Grant Cynnal Refeniw a'r Cyllid Cymorth i Fyfyrwyr.

**Gwelliant 16**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod proffil y gyllideb yn rhagdybio y bydd lefel yr arian strwythurol Ewropeaidd yn parhau'r un fath â'r gwariant presennol ar raglenni y tu hwnt i gyfnod llawn Amcan Un ac na fyddai modd cynnal y lefelau ariannu a ddangosir yn y gyllideb ddrafft yn ystod y cyfnod

trosiannol ar ôl Amcan Un ac yn galw ar y Gweinidog i wneud datganiad yn esbonio’r gwahaniaeth rhwng y gyllideb ddrafft a’r ansicrwydd ynghylch dyfodol yr arian strwythurol Ewropeaidd.

**Gwelliant 17**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai hi’n well ac yn decach pe bai’r arian sydd ar gael drwy linell wariant y grant amddifadedd a’r llinell wariant Cyfiawnder Cymdeithasol ‘Adfywio a gwasanaethau eraill’ yn cael ei ddarparu drwy’r fformiwla brif ffrwd, y Grant Cynnal Refeniw.

**3.42pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i’r Gadair**

**4.46pm**
**Daeth y Llywydd i’r Gadair**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 58

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O blaid 58; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 58
**Derbyniwyd gwelliant 9**

**Gwelliant 10**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 10**

**Gwelliant 11**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 11**

**Gwelliant 12**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 12**

**Gwelliant 13**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 13**

**Gwelliant 14**
O blaid 17; Ymatal 11; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 14**

**Gwelliant 15**
O blaid 6; Ymatal 0; Yn erbyn 52; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 15**

**Gwelliant 16**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 16**

**Gwelliant 17**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd gwelliant 17**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.11pm**
**Dadl fer - NDM2134 Leighton Andrews (Rhondda):** Cymru yn ôl y galw: Creu busnesau a chynnwys digidol Cymreig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.31pm**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 20 Hydref 2004**

- Adroddiad y Pwyllgor Safonau 01-2004 - Cwyn Yn Erbyn Edwina Hart AC - LD3235

**Dogfennau a Osodwyd ar 18 Hydref 2004**

- Adroddiad y Pwyllgor Archwilio: Cyllid GIG Cymru 2004 - LD3234
- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Iechyd Cymru Adroddiad Blynyddol 2003-2004 - LD3231

**Dogfennau a Osodwyd ar 15 Hydref 2004**

- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau: Crynodeb o Waith 2003-2004 (Atodiad: Y Cynulliad Cyntaf - Pedwerydd Adroddiad Blynyddol: 2002-2003) - LD3232
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau: Crynodeb o Waith 2003-2004-LD3233

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 12 Hydref 2004**

- LC963 - Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 - LD3219
- LC964 - Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 - LD3220

- LC956 - Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD3221
- LC959 - Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 - LD3222
- LC960 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD3223
- LC961 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 - LD3224